Proses Datganiad Cydymffurfiaeth – Cwestiynau Cyffredin

1. Sut y gallaf fewngofnodi i gwblhau'r datganiad?

Fel Swyddog Cyfrifol, mae manylion mewngofnodi diogel wedi cael eu neilltuo i chi o'r blaen ar gyfer cronfa ddata QiW lle gallwch gwblhau a chyflwyno eich datganiad cydymffurfiaeth. Os oes angen eich atgoffa o'ch manylion mewngofnodi diogel, cysylltwch â ni yn statementofcompliance@qualificationswales.org. Rydym yn anelu at brosesu ceisiadau i'ch atgoffa o'ch cyfrinair o fewn pum diwrnod gwaith.

2. Sut y gallaf gael manylion mewngofnodi ychwanegol fel y gall eraill olygu'r datganiad?

Gallwch wneud cais am fanylion mewngofnodi i alluogi defnyddwyr eilaidd i olygu eich datganiad drwy anfon eu henw a'u cyfeiriad e-bost drwy e-bost i statementofcompliance@qualificationswales.org. Rydym yn anelu at brosesu ceisiadau am ddefnyddwyr newydd o fewn pum diwrnod gwaith.

3. A allant gyflwyno'r datganiad ar fy rhan?

Dim ond y Swyddog Cyfrifol sy'n gallu cyflwyno'r datganiad, ac mae caniatâd wedi ei gymhwyso at y manylion mewngofnodi yn unol â hynny.

4. Sut mae cwblhau'r datganiad?

Os ydych yn cael trafferth i fewngofnodi i QiW (www.qiw.cymru), efallai bod hynny am eich bod eisoes wedi mewngofnodi ar gyfrif Microsoft arall e.e. Outlook.com neu gyfrif Office 365 arall. Efallai y bydd angen i chi ddefnyddio QiW drwy ddewis dulliau 'InPrivate'/'Incognito' ar eich porwr rhyngrwyd. Os nad ydych yn gweld y tab Datganiad Cydymffurfiaeth, cysylltwch â ni.

Pan fyddwch yn clicio ar y tab hwn, mae sgrin agoriadol y datganiad cydymffurfiaeth yn nodi diben y datganiad. Pan fyddwch yn barod i ddechrau cwblhau eich datganiad, dewiswch y botwm '*Cwblhau*' ar ochr dde datganiad 2019.

5. A allaf gadw'r newidiadau wrth i mi gwblhau'r datganiad?

Os bydd angen i chi ddod yn ôl i'ch datganiad yn nes ymlaen, gallwch glicio ar y botwm '*Cadw*' ar waelod y dudalen.

6. A oes terfyn amser o ran golygu testun yn y datganiad?

Am resymau diogelwch, cewch eich cloi allan o'r system ar ôl **20 munud** o anweithgarwch. Er mwyn osgoi colli eich gwaith, gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw eich gwaith yn rheolaidd. Efallai yr hoffech gwblhau eich ymatebion testun i linell ymholi mewn dogfen Word yn gyntaf, ac yna gludo'r testun hwn i mewn i'ch datganiad ar-lein mewn un cam.

7. Beth os bydd angen i mi fynd yn ôl i sgrin flaenorol yn y datganiad?

Gan nad oes swyddogaeth botwm 'yn ôl' ar gael, os bydd angen i chi olygu neu adolygu sgrin flaenorol, bydd angen i chi gadw'r newidiadau, cau'r datganiad a'i ail-lansio.

8. Sut y gallaf lanlwytho dogfennau ategol i adrannau tystiolaeth perthnasol y datganiad? Sawl dogfen y dylwn i lanlwytho?

Gellir atodi dogfennaeth berthnasol er mwyn ategu eich ymateb drwy ddefnyddio'r botymau '*Lanlwytho*' y gellir dod o hyd iddynt ym mhob adran llinell ymholi o'r datganiad. **Lanlwythwch dystiolaeth ategol sy'n uniongyrchol berthnasol i'r llinell ymholi rydych wedi cyfeirio ati yn eich ymateb testun yn unig.**

9. Pa mor fanwl ddylai fy ymatebion i linell ymholi fod?

Sylwer bod terfyn o 10,000 o nodau ar gyfer pob ymateb testun i linellau ymholi. Mae'n rhaid i ymatebion testun gynnwys **pob** agwedd ar y llinell ymholi er mwyn lleihau'r angen i ni gysylltu â chi i gael eglurhad pellach. Dylai eich ymateb testun fod yn eglurhad cryno o'ch prosesau sy'n cefnogi'r polisïau a'r gweithdrefnau a atodir gennych.

10. Sut y dylwn strwythuro fy ymateb i linell ymholi?

Y peth gorau i'w wneud yw cyfeirio at bob rhan o'r llinell ymholi gan ddefnyddio pennawd ar wahân. **Peidiwch** â thorri a gludo dyfyniadau o'r dogfennau rydych yn eu lanlwytho i mewn i'ch ymateb testun. Dylech gyfeirio at rannau o bolisïau/gweithdrefnau perthnasol rydych wedi'u lanlwytho yn eich ymateb testun, gan nodi rhifau tudalen/adrannau priodol, a chadarnhau unrhyw bwyntiau o'r polisi sydd angen eu hegluro ymhellach.

11. Rydym yn datgan diffyg cydymffurfiaeth â sawl un o'r amodau cydnabod. Sut mae gwneud hyn?

Rhaid dewis pob is-amod nad yw eich sefydliad yn ystyried ei fod yn cydymffurfio ag ef yn unigol, gan roi manylion am y diffyg cydymffurfiaeth, a'r camau penodol i'w cymryd a fydd yn eich galluogi i gydymffurfio eto. Os nad ydych yn cydymffurfio â sawl is-amod y mae angen cymryd yr un camau ar eu cyfer, rhaid ailadrodd hyn ar gyfer pob is-amod unigol drwy ddewis y swyddogaeth '*ychwanegu achos o gydymffurfiaeth*'.

Er enghraifft, os hoffech ddatgan diffyg cydymffurfiaeth ar hyn o bryd ag is-amodau A5.1(a) ac Amodau A5.2(a), (b) a (c), byddai angen i chi ailadrodd y broses bedair gwaith, gan restru manylion y mater, y camau gweithredu a gymerir a'r dyddiad cydymffurfio arfaethedig.

12. Sut y gallaf gyflwyno'r datganiad cydymffurfiaeth wedi'i gwblhau?

Unwaith y byddwch yn fodlon bod pob adran berthnasol o'r datganiad wedi'i chwblhau a bod yr holl dystiolaeth ofynnol wedi'i lanlwytho, gallwch gyflwyno eich datganiad drwy glicio ar y botwm '*Cyflwyno*' ar waelod y dudalen. Bydd dyddiad y datganiad yr un peth â'r dyddiad y cafodd ei gyflwyno ac ni all fod yn ôl-weithredol. Os ydych wedi hepgor unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth orfodol, caiff yr adran berthnasol ei huwcholeuo'n goch ac ni ellir cyflwyno eich datganiad nes i chi ddarparu hyn.

13. Sut y gallaf gadarnhau bod fy natganiad wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus?

Byddwn yn anfon e-bost cydnabod awtomatig atoch i gadarnhau bod eich datganiad wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus.

14. A allaf olygu fy natganiad ar ôl iddo gael ei gyflwyno?

Ar ôl i chi gyflwyno eich datganiad i ni, cewch fynediad 'darllen yn unig' i'ch datganiad ac ni fyddwch yn gallu gwneud unrhyw newidiadau pellach.

15. Â phwy y dylwn gysylltu os byddaf yn cael unrhyw broblemau neu os bydd angen rhagor o wybodaeth arnaf am y broses o gyflwyno datganiad cydymffurfiaeth?

Mae'r adran '*Canllawiau*' yn arwain yn uniongyrchol at adran datganiad cydymffurfiaeth gwefan Cymwysterau Cymru, sy'n cynnwys canllaw ar ddatrys problemau mewngofnodi. Gallwch hefyd gysylltu â ni i gael cymorth ac arweiniad yn statementofcompliance@qualificationswales.org. Os ydych wedi cael unrhyw broblemau gyda'r broses gyflwyno, gallwch gwblhau ffurflen adborth fer drwy'r bar ar waelod yr adran datganiad cydymffurfiaeth yn QiW.